OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 231 (Cy. 57) (C. 6)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021

*Gwnaed - - - - 3 Mawrth 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 175(7) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

**Enw a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Y darpariaethau sy'n dod i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn—

(a) adran 28;

(b) adran 30(3);

(c) adran 35;

(d) adran 46(1)(b), (c) a (2)(b) i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(e) adran 46(3), (4) ac (8) i (10);

(f) adran 47(8);

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) 2000 p. 22.

(g) adran 59;

(h) adran 161(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Ergl. 2 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2021—

(a) adran 163;

(b) adran 164.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 3 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Tachwedd 2021**

**4.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Tachwedd 2021—

(a) adrannau 24 i 27;

(b) adran 29;

(c) Rhan 1 o Atodlen 3.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Ergl. 4 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2022**

**5.** Daw adran 52 o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2022.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Ergl. 5 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 5 Mai 2022**

**6.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 5 Mai 2022—

(a) adran 30 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adrannau 31 i 34;

(c) adrannau 36 a 37;

(d) Pennod 2 o Ran 3;

(e) adran 45;

(f) adran 46 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(g) adran 48;

(h) adran 54;

(i) adran 56;

(j) adran 57;

(k) adran 58;

(l) adran 62;

(m) adran 63;

(n) adrannau 65 a 66;

(o) adran 67;

(p) adran 161 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(q) adran 162;

(r) Rhan 2 o Atodlen 3;

(s) Atodlen 5;

**[**[F1](t) paragraffau 1, 3 i 5 a 6(1) i (4) o Atodlen 6;**]**

(u) Atodlen 7;

(v) Atodlen 13.

**F1** Ergl. 6(t) wedi ei amnewid (9.11.2021) gan Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaeth Drosiannol a Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 1) 2021 (O.S. 2021/1249), **ergl. 3(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Ergl. 6 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Darpariaeth arbed sy'n ymwneud â'r pŵer i hybu llesiant**

**7.** Er bod erthygl 6 yn dod â Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Ddeddf i rym, mae adrannau 2 a 3 o Ddeddf 2000 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir gan gyngor cymuned cyn 5 Mai 2022 yn unol â'i bŵer yn adran 2 o Ddeddf 2000, hyd nes y bo—

(a) y peth hwnnw wedi ei gwblhau; neu

(b) y cyngor cymuned wedi penderfynu dod yn gyngor cymuned cymwys o dan adran 30(1) o'r Ddeddf.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Ergl. 7 mewn grym ar y dyddiad gwneud

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

3 Mawrth 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn—

(a) adran 28 (pŵer cymhwysedd cyffredinol: pwerau i wneud darpariaeth atodol);

(b) adran 30(3) (amod cymhwystra mewn perthynas â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer cynghorau cymuned a phŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r amod hwnnw);

(c) adran 35 (pŵer i ddiwygio neu addasu Pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf);

(d) adran 46(1)(b), (c) a (2)(b) (pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol) i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(e) adran 46(3), (4) ac (8) i (10) (pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol);

(f) adran 47(8) (pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 47 o'r Ddeddf mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd awdurdod lleol);

(g) adran 59 (cynnwys canllawiau o dan adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"), a dyletswydd i roi sylw iddynt);

(h) adran 161(1) (pennaeth gwasanaethau democrataidd: diwygiadau i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Mesur 2011")).

Mae erthygl 3 yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2021—

(a) adran 163 (y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn penodi ei brif weithredwr);

(b) adran 164 (cyfarwyddydau o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013).

Mae erthygl 4 yn dwyn i rym ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar 1 Tachwedd 2021.

Mae erthygl 5 yn dwyn adran 52 (adroddiadau blynyddol gan gynghorau cymuned) o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2022.

Mae erthygl 6 yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 5 Mai 2022—

(a) adrannau 30 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym), 31 i 34, a 36 a 37 (pŵer cymhwysedd cyffredinol: cynghorau cymuned cymwys);

(b) Pennod 2 o Ran 3 (cyfranogiad y cyhoedd pan fo prif gynghorau yn gwneud penderfyniadau);

(c) adran 45 (dyletswydd ar brif gynghorau i gyhoeddi cyfansoddiad ac arweiniad i'r cyfansoddiad);

(d) adran 46 (darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(e) adran 48 (cyfranogi yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned);

(f) adran 54 (prif weithredwyr);

(g) adran 56 (diwygiadau i Fesur 2011 yn ymwneud ag ailystyried cydnabyddiaeth ariannol yn dilyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru);

(h) adran 57 (penodi cynorthwywyr gweithrediaeth);

(i) adran 58 (rhannu swydd: arweinyddion gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth);

(j) adran 62 (dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad);

(k) adran 63 (dyletswydd ar bwyllgor safonau i wneud adroddiad blynyddol);

(l) adrannau 65 a 66 (pwyllgorau trosolwg a chraffu);

(m) adran 67 (cynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned);

(n) adran 161 (pennaeth gwasanaethau democrataidd: diwygiadau pellach i Fesur 2011 a diwygiadau i Ddeddf Lleoliaeth 2011) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(o) adran 162 (diddymu'r pŵer i gynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfod cymunedol);

(p) Rhan 2 o Atodlen 3 (diwygiadau mewn perthynas â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol: cynghorau cymuned cymwys);

(q) Atodlen 5 (diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â phrif weithredwyr);

(r) Atodlen 6 (diwygiadau canlyniadol etc. mewn perthynas â chynorthwywyr gweithrediaethau awdurdodau lleol) ac eithrio paragraff 6(5);

(s) Atodlen 7 (rhannu swyddi gan arweinyddion gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth);

(t) Atodlen 13 (diddymu'r pŵer i gynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfodydd cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

Mae erthygl 7 yn arbed adrannau 2 a 3 o Ddeddf 2000 mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir gan gyngor cymuned cyn 5 Mai 2022 yn unol â'i bŵer yn adran 2 o'r Ddeddf honno hyd nes y bo'r peth hwnnw wedi ei gwblhau neu'r cyngor cymuned wedi penderfynu dod yn gyngor cymuned cymwys o dan adran 30(1) o'r Ddeddf.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021.